Ombwdsmon
Ombudsman
Cymru · Wales

# Adolygiad Digartrefedd: Ailymweld

## Adroddiad dilynol ar y cynnydd sydd wedi'i wneud mewn gwasanaethau digartrefedd yn awdurdodau lleol Cymru ers ymchwiliad 'ar ei Liwt ei Hun' OGCC yn 2021



ombwdsmon.cymru

## Ein rôl

Mae gennym dair rôl yn bennaf:

Rydym yn ymchwilio i gwynion am wasanaethau cyhoeddus.

Rydym yn ystyried cwynion am gynghorwyr sy'n torri'r Cod Ymddygiad.

Rydym yn ysgogi gwelliant systematig mewn gwasanaethau cyhoeddus a safonau ymddygiad mewn llywodraeth leol yng Nghymru.

Rydym yn annibynnol, yn ddiduedd, yn deg ac yn agored i bawb sydd ein hangen.  Mae ein gwasanaeth yn rhad ac am ddim.

Gallwn ddarparu crynodeb y ddogfen hon mewn fformatau hygyrch gan gynnwys Braille, print bras a Hawdd ei Ddarllen. Er mwyn gwneud cais, cysylltwch â ni:

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
1 Ffordd yr Hen Gae
Pencoed
CF35 5LJ
Ffôn: 0300 790 0203
E-bost: cyfathrebu@ombwdsmon.cymru

# Cynnwys


4 **Rhagair**

6 **Adolygiad Digartrefedd: drws agored i newid cadarnhaol**

7 **Y data**

9 **Dadansoddiad**

9 Penderfyniadau gwell a mwy cyson

11 Hyfforddiant

12 Grymuso swyddogion digartrefedd

13 Hygyrchedd a chyfathrebu gyda defnyddwyr gwasanaeth

14 Ystyriaeth agored o gydraddoldeb a hawliau dynol

15 Cydweithredu

16 Adolygu a diweddaru Deddf Tai Cymru a'r Cod Canllawiau cysylltiedig

17 Rheoleiddiwr Tai

18 **Sylwadau ar yr adroddiad drafft**

19 **Casgliadau**

# Rhagair

Mae Deddf 2019 Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019 yn rhoi pwerau i mi ymgymryd ag ymchwiliadau 'ar ei Liwt ei Hun' lle mae tystiolaeth yn awgrymu y gall fod methiant gwasanaeth systematig neu gamweinyddu. Mae hyn yn golygu y gallaf ymchwilio i fater y tu hwnt i'w effaith ar unigolyn a heb orfod aros am gŵyn.

Ym mis Hydref 2021, cyhoeddodd fy rhagflaenydd yr adroddiad ar yr ymchwiliad cyntaf o'r fath, **Adolygiad Digartrefedd: drws agored i newid cadarnhaol**. Nododd yr ymchwiliad gamweinyddu systematig a methiant gwasanaeth yn ymwneud â gweinyddu gwasanaethau digartrefedd yn yr Awdurdodau yr ymchwiliwyd iddynt: Cyngor Caerdydd, Cyngor Sir Caerfyrddin a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam.

Gwnaed nifer o argymhellion o ganlyniad i'r ymchwiliad a chytunodd yr Awdurdodau yr ymchwiliwyd iddynt i'w gweithredu. Gwahoddwyd yr 19 awdurdod arall yng Nghymru na ymchwiliwyd iddynt hefyd i weithredu ac ystyried sut y gwnaeth canfyddiadau'r adroddiad a'i argymhellion effeithio ar eu gwasanaethau digartrefedd eu hunain. Hefyd, gwahoddwyd Llywodraeth Cymru i weithredu ar ganfyddiadau'r adroddiad ar yr ymchwiliad ac i ddefnyddio ei chanfyddiadau i wella gwasanaethau digartrefedd yng Nghymru.[1] Yn ogystal, nododd yr ymchwiliad enghreifftiau o arfer da a rannwyd gyda'r bwriad o sbarduno gwelliant ar draws gwasanaethau digartrefedd awdurdodau lleol ledled Cymru.

Ddwy flynedd yn ddiweddarach, mae'n briodol cyhoeddi adroddiad dilynol i rannu'r cynnydd yr wyf wedi'i nodi yn y sector digartrefedd yng Nghymru. Ers cyhoeddi'r adroddiad ar yr ymchwiliad, mae fy swyddfa wedi monitro cydymffurfiaeth yr

1 Nid oedd y gwahoddiadau a wnaed i'r 19 awdurdod lleol na ymchwiliwyd iddynt ac i Lywodraeth Cymru yn argymhellion ffurfiol a wnaed yn unol â'r Ddeddf gan na chafodd y cyrff hynny eu hymchwilio'n ffurfiol.

Awdurdodau yr ymchwiliwyd iddynt â'r argymhellion a wnaed ac mae wedi casglu gwybodaeth mewn perthynas ag effaith yr ymchwiliad ar draws awdurdodau lleol yng Nghymru a Llywodraeth Cymru.  Er bod yr awdurdodau lleol wedi cymryd rhai camau cadarnhaol, mae rhai meysydd lle y gellid cymryd camau pellach i wella gwasanaethau digartrefedd ledled Cymru.

Wedi dweud hynny, hoffwn ddiolch i'r Awdurdodau yr ymchwiliwyd iddynt am gydymffurfio â'r argymhellion a wnaed mewn modd amserol. Hoffwn hefyd ddiolch i'r awdurdodau na ymchwiliwyd iddynt sydd wedi gweithredu yn dilyn cyhoeddi'r adroddiad a'i ganfyddiadau ac sydd wedi rhoi'r wybodaeth a data diweddaraf i'm swyddfa.  Hoffwn hefyd ddiolch i Lywodraeth Cymru am ystyried yr adroddiad yn ei 'Gynllun Gweithredu Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd' ac wrth ddiwygio ei wasanaethau digartrefedd.



## Michelle Morris

**Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru**
Tachwedd 2023

# Adolygiad Digartrefedd: drws agored i newid cadarnhaol

Diben yr adroddiad **Adolygiad Digartrefedd: drws agored i newid cadarnhaol** oedd rhannu canfyddiadau ein hymchwiliad 'ar ei Liwt ei Hun' cyntaf a archwiliodd a oedd awdurdodau lleol yng Nghymru yn cyflawni eu dyletswyddau statudol o dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014 a chanllawiau cysylltiedig i sicrhau bod asesiadau digartrefedd yn cael eu cynnal yn briodol. Mae adran 62 o Ddeddf Tai Cymru yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i asesu person sy'n cyflwyno ei hun yn ddigartref i weld a yw'r person yn gymwys i gael cymorth.

Archwiliodd yr ymchwiliad hefyd a yw'r sawl sydd â hawl i herio canlyniad asesiad, neu'r penderfyniad bod dyletswydd awdurdod lleol wedi dod i ben, yn ymwybodol ac yn deall eu hawl i ofyn am adolygiad o'r penderfyniadau hynny o dan Adran 85 o Ddeddf Tai (Cymru). Lle cynhaliwyd adolygiadau, gwnaethom ystyried a oeddent yn cael eu gweinyddu'n briodol yn unol ag Adran 85 o Ddeddf Tai Cymru.

Canfuom fod yr Awdurdodau yr ymchwiliwyd iddynt, yn gyffredinol, wedi bodloni eu dyletswyddau statudol o dan Ddeddf Tai Cymru a'r canllawiau cysylltiedig, i sicrhau bod asesiadau digartrefedd yn cael eu cynnal yn briodol. Canfu hefyd, er bod y sawl sydd â hawl i herio canlyniad asesiad, neu'r penderfyniad bod dyletswydd awdurdod lleol wedi dod i ben, yn cael eu hysbysu mewn llythyrau a drwy daflenni ffeithiau, nid oedd yn amlwg eu bod bob amser yn ymwybodol ac yn deall eu hawl i ofyn am adolygiad. Daethom i'r casgliad y gellid gwneud gwelliannau o ran gweinyddu adolygiadau mewn perthynas ag annibyniaeth ac amseroldeb adolygiadau. Gwnaed nifer o argymhellion i'r Awdurdodau yr ymchwiliwyd iddynt ac, o ystyried y potensial ar gyfer dysgu ehangach, gwahoddwyd yr 19 awdurdod arall na ymchwiliwyd iddynt i ystyried effaith yr adroddiad a'i ganfyddiadau ar wasanaethau digartrefedd yn lleol. Yn ogystal, gwahoddwyd Llywodraeth Cymru i gymryd rhai camau i wella gwasanaethau digartrefedd ledled Cymru.

# Y data

Adroddodd Shelter Cymru yn ei adroddiad ym mis Mehefin 2020, bod 406 o geisiadau am Adolygiad wedi'u gwneud yn 2017/2018 ar draws 20 awdurdod lleol yng Nghymru,[2] gyda 38% yn arwain at wrthdroi'r penderfyniad gwreiddiol.

I helpu gyda'n hadolygiad o effaith yr adroddiad Adolygiad Digartrefedd, gofynnwyd am ddata wedi'i ddiweddaru yn ymwneud ag Asesiadau ac Adolygiadau digartrefedd gan bob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru ar gyfer 2021/2022 a 2022/2023. Mae'r data'n dangos bod awdurdodau lleol yng Nghymru wedi cwblhau 28,877[3] o Asesiadau digartrefedd yn 2021/2022 a 31,692 yn 2022/2023, gan ddangos cynnydd o flwyddyn i flwyddyn o 10% yn yr Asesiadau digartrefedd sy'n cael eu cwblhau gan awdurdodau lleol Cymru.

Mae'r tabl isod yn dangos, ar gyfer pob awdurdod lleol lle maent ar gael, canrannau'r Asesiadau digartrefedd a arweiniodd at Adolygiad a chanran y penderfyniadau Asesu a gafodd eu gwrthdroi ar ôl Adolygiad.

2 Methodd Cyngor Sir Caerfyrddin a Chyngor Sir Ynys Môn â darparu data i Shelter Cymru.

3 Nid yw'n cynnwys data gan Gwynedd ar gyfer Hydref a Thachwedd 2021 oherwydd anawsterau technegol a brofwyd.

| | % yr Asesiadau Digartrefedd yn arwain at Adolygiad | % y penderfyniadau Asesu sy'n cael eu gwrthdroi ar ôl Adolygiad |
|---|---|---|
| 2017/2018* | 1.4% | 38% |
| 2021/2022** | 1.5% | 27% |
| 2022/2023*** | 2.2% | 27% |

* Heb gynnwys Sir Gaerfyrddin ac Ynys Môn gan iddynt fethu â darparu data i Shelter Cymru

** Heb gynnwys Ceredigion a Gwynedd oherwydd data anghyflawn/dim data.

*** Heb gynnwys Pen-y-bont ar Ogwr, Caerffili, Gwynedd, Casnewydd a Sir Benfro oherwydd data anghyflawn/dim data.

Buom hefyd yn edrych yn benodol ar yr Awdurdodau yr ymchwiliwyd iddynt. Mae'r tabl isod yn dangos canrannau'r Asesiadau digartrefedd a arweiniodd at Adolygiad a chanran y penderfyniadau Asesu a gafodd eu gwrthdroi ar ôl Adolygiad yn yr Awdurdodau yr ymchwiliwyd iddynt. Ystyrir y data hwn yn y dadansoddiad ar y dudalen nesaf.

| | Blwyddyn | % yr Asesiadau Digartrefedd yn arwain at Adolygiad | % y penderfyniadau Asesu sy'n cael eu gwrthdroi ar ôl Adolygiad |
|---|---|---|---|
| Cyngor Caerdydd | 2017/2018 | Ddim ar gael | 50% |
| | 2021/2022 | 3.34% | 31% |
| | 2022/2023 | 4.09% | 30% |
| Cyngor Sir Caerfyrddin | 2017/2018 | Ddim ar gael | Ddim ar gael |
| | 2021/2022 | 1.25% | 30% |
| | 2022/2023 | 1.98% | 55% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | 2017/2018 | Ddim ar gael | 14% |
| | 2021/2022 | 10.00% | 25% |
| | 2022/2023 | 12.92% | 18% |

# Dadansoddiad

Cafodd Cynllun Gwireddu Manteision ei ddrafftio yn dilyn cyhoeddi'r adroddiad Adolygiad Digartrefedd ym mis Hydref 2021. Roedd yn amlinellu'r gwahanol fanteision disgwyliedig yn sgil yr ymchwiliad ar ei Liwt ei Hun a ffyrdd y gellid dangos y canlyniadau pe bai pob mantais yn cael ei wireddu. Isod ceir crynodeb o'r sefyllfa bresennol mewn perthynas â'r meysydd y rhagwelwyd y gallai canfyddiadau ac argymhellion yr adroddiad ar yr ymchwiliad effeithio arnynt:

## Penderfyniadau gwell a mwy cyson

Rhagwelwyd y byddai penderfyniadau gwell gan swyddogion digartrefedd yng Nghymru yn arwain at ostyngiad yng nghanran yr Asesiadau sy'n arwain at Adolygiad ac yn y penderfyniadau Asesu sy'n cael eu gwrthdroi ar ôl Adolygiad. Mae'r data sydd ar gael a gasglwyd o bob rhan o Gymru yn dangos cynnydd yng nghanran yr Asesiadau sy'n arwain at Adolygiad, gan gynnwys ym mhob un o'r 3 Awdurdod yr ymchwiliwyd iddynt. Er bod hyn yn annisgwyl, gan y rhagwelwyd y byddai cymhwyso'r hyn a ddysgwyd o'r ymchwiliad yn gwella'r broses o wneud penderfyniadau yn ystod yr Asesiad, gallai ddangos mwy o ymwybyddiaeth gan ddefnyddwyr gwasanaeth o'r hawl i ofyn am Adolygiad. Er y bu cynnydd ledled Cymru yn nifer yr Asesiadau sy'n arwain at Adolygiad, mae'r data cyffredinol yn dangos gostyngiad sylweddol yn nifer y penderfyniadau Asesu sy'n cael eu gwrthdroi ar ôl Adolygiad.

Gan droi'n benodol at yr Awdurdodau yr ymchwiliwyd iddynt, mae **Cyngor Caerdydd** wedi dangos gostyngiad bach yn unol â'r duedd a welwyd ledled Cymru. Fodd bynnag, mae **Cyngor Sir Caerfyrddin** wedi gweld cynnydd sylweddol yn nifer y penderfyniadau Asesu sy'n cael eu gwrthdroi ar ôl Adolygiad rhwng 2021/2022 a 2022/2023. Dywedodd Cyngor Sir Caerfyrddin mai'r prif resymau dros wrthdroi Penderfyniadau Asesu ar ôl Adolygiad yn 2021/2022 oedd

newid mewn amgylchiadau, nad oedd yr eiddo a gynigiwyd yn diwallu anghenion ac achosion lle'r oedd angen mwy o ymchwilio.  Dywedodd, yn 2022/2023, bod y rhain yn parhau i fod yn 3 o'r prif resymau dros wrthdroi penderfyniad Asesu ar ôl Adolygiad. Dywedodd fod llythyrau nad oeddent yn cynnwys digon o fanylion i gyfiawnhau penderfyniad yn rheswm pellach dros wrthdroi'r penderfyniad gwreiddiol.  Gallai hyn ddangos mwy o ymwybyddiaeth ymhlith Swyddogion Adolygu, yn dilyn hyfforddiant a drefnwyd yn unol â'n hargymhellion, o'r gofynion ar gyfer ystyriaeth drylwyr o geisiadau Adolygiad, i gynnwys materion hawliau dynol a chydraddoldeb.

Gwelodd **Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam** gynnydd yng nghanran y penderfyniadau Asesu sy'n cael eu gwrthdroi ar ôl Adolygiad rhwng 2017/2018 a 2021/2022, ond gostyngiad rhwng 2021/2022 a 2022/2023.  Fodd bynnag, mae'r ffigurau ar gyfer 2021/2022 a 2022/2023 yn parhau'n uwch nag yn 2017/2018.

Disgwyliwyd y byddai gwell cysondeb ledled Cymru mewn cysylltiad â phenderfyniadau Adolygiad yn arwain at ostyngiad yng nghanran yr Asesiadau sy'n arwain at Adolygiad ac yng nghanran y penderfyniadau Asesu sy'n cael eu gwrthdroi ar ôl Adolygiad. Er bod canran y penderfyniadau Asesu sy'n cael eu gwrthdroi ar ôl Adolygiad wedi gweld gostyngiad sylweddol ledled Cymru rhwng 2017/2018 a 2021 – 2023, mae wedi aros ar lefel statig yn y blynyddoedd diwethaf ac, yn arbennig, ers cyhoeddi'r adroddiad ar yr ymchwiliad.

Gall y tueddiadau cymysg a welwyd yn y data ledled Cymru ac, yn benodol, yn yr Awdurdodau yr Ymchwiliwyd iddynt, adlewyrchu newidiadau ehangach sy'n effeithio ar ddigartrefedd yng Nghymru ers cyhoeddi'r adroddiad sydd wedi gorbwyso rhai o'r newidiadau a wnaed o ganlyniad i'r adroddiad.  Mae'r argymhellion a wnaed i wella'r broses o wneud penderfyniadau yn parhau i fod yn berthnasol.

## Hyfforddiant

Argymhellodd yr adroddiad ar yr ymchwiliad fod pob Awdurdod yr ymchwiliwyd iddo yn sicrhau bod ganddo gynllun i ddarparu hyfforddiant rheolaidd ar gydraddoldeb a hawliau dynol i bob unigolyn sy'n gwneud penderfyniad ac i swyddogion Adolygu. Argymhellodd hefyd y dylid cynnwys swyddogion Adolygu wrth ddatblygu hyfforddiant digartrefedd yn y dyfodol.

Dywedodd **Cyngor Caerdydd** wrthym, er bod yr holl staff wedi'u cofrestru ar gyfer hyfforddiant cydraddoldeb gorfodol, ei fod hefyd wedi ymgysylltu â Shelter Cymru i ddod o hyd i becyn hyfforddi pwrpasol a oedd yn cynnwys hyfforddiant cydraddoldeb a hawliau dynol ar gyfer swyddogion Asesu ac Adolygu.  Yn yr un modd, cafodd **Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam** hyfforddiant gan Shelter Cymru, gyda staff Opsiynau Tai yn mynychu cwrs hyfforddi 'Cyfraith Ddigartrefedd yng Nghymru – Cyflwyniad hanfodol Lefel 2'.  Dywedodd **Cyngor Sir Caerfyrddin** wrthym ei fod wedi cynnwys hyfforddiant cydraddoldeb a hawliau dynol yn ei Gynllun Dysgu a Datblygu ar gyfer 2022/2023.

Roedd gwybodaeth a dderbyniwyd gan yr awdurdodau na ymchwiliwyd iddynt yn dangos bod swyddogion digartrefedd ledled Cymru wedi derbyn hyfforddiant mewn ystod o bynciau perthnasol.  Roedd yr hyfforddiant a ddarparwyd yn cynnwys hyfforddiant cyfle cyfartal a rhagfarn ddiarwybod, hyfforddiant Amgylchedd sy'n Ystyriol o Gyflwr Seicolegol ("PIE") a hyfforddiant ar y Ddeddf Gydraddoldeb.  Roedd y wybodaeth yn dangos bod rhai awdurdodau lleol wedi dod yn aelodau o Tai Pawb, sefydliad trydydd sector sy'n gweithio i hybu cydraddoldeb a chyfiawnder cymdeithasol ym maes tai yng Nghymru, gan alluogi mynediad at hyfforddiant cydraddoldeb a hawliau dynol perthnasol.

## Grymuso swyddogion digartrefedd

Rhagwelwyd, pe byddai swyddogion yn cael eu grymuso i nodi camgymeriadau a chywiro penderfyniadau a wnaed heb fod angen Adolygiad, y byddai gostyngiad i'w weld yng nghanran yr Asesiadau sy'n arwain at Adolygiad ac yn nifer y penderfyniadau Asesu sy'n cael eu gwrthdroi ar ôl Adolygiad. Er bod gostyngiad yn amlwg yng nghyfran y penderfyniadau Asesu sy'n cael eu gwrthdroi ar ôl Adolygiad, nid yw'n bosibl pennu'n bendant a yw grymuso swyddogion wedi cyfrannu at y gostyngiad hwn.

### Enghraifft o arfer da

**Pan ofynnir am Adolygiadau, dywedodd Cyngor Abertawe wrthym ei fod, lle bo modd, yn ailedrych ar yr achos ac yn ystyried unrhyw wybodaeth newydd sy'n arwain, ar rai adegau, at wrthdroi'r penderfyniad gwreiddiol cyn cyrraedd cais ffurfiol am Adolygiad. Mae hyn i'w gymeradwyo.**

## Hygyrchedd a chyfathrebu gyda defnyddwyr gwasanaeth

Gwnaeth yr adroddiad ar yr ymchwiliad nifer o argymhellion i wella cyfathrebu â defnyddwyr gwasanaeth, gan gynnwys creu dogfennau 'Hawdd eu Deall' a defnyddio dulliau cyfathrebu amgen. Roedd tystiolaeth cydymffurfio a gyflwynwyd gan yr Awdurdodau yr ymchwiliwyd iddynt yn dangos defnydd cynyddol o ddulliau cyfathrebu amgen e.e. WhatsApp, negeseuon testun ac e-bost i wella cyfathrebu â defnyddwyr gwasanaeth. Mae fy swyddfa wedi derbyn tystiolaeth sydd yn dangos bod yr Awdurdodau yr ymchwiliwyd iddynt wedi adolygu taflenni ffeithiau a gohebiaeth i sicrhau eu bod ar gael mewn fformat hygyrch.

Roedd gwybodaeth a gafwyd gan yr awdurdodau na ymchwiliwyd iddynt yn dangos bod rhai ohonynt wedi dynodi amser i greu taflenni ffeithiau a gohebiaeth ddigartrefedd mewn fformatau Hawdd eu Deall. Dywedodd rhai o'r awdurdodau eraill na ymchwiliwyd iddynt eu bod yn archwilio'r defnydd o alwadau fideo a sgwrsfotiaid i wella hygyrchedd a chyfathrebu â defnyddwyr gwasanaeth.

Er bod angen i awdurdodau lleol barhau i sicrhau bod eu gohebiaeth ysgrifenedig yn bodloni gofynion cyfreithiol Deddf Tai Cymru 2014, rwy'n hyderus bod defnyddio'r dulliau cyfathrebu ychwanegol hyn yn gwella hygyrchedd i ddefnyddwyr gwasanaethau ac ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau.

## Ystyriaeth agored o gydraddoldeb a hawliau dynol

Pe bai swyddogion digartrefedd yn rhoi ystyriaeth agored i hawliau dynol a ffactorau cydraddoldeb trwy ddefnyddio fframwaith cydraddoldeb a hawliau dynol wrth wneud penderfyniadau, rhagwelwyd y byddai modd gweld gostyngiad yng nghanran y ceisiadau Adolygiad a wnaed mewn perthynas ag addasrwydd llety. Fodd bynnag, roedd y data sydd ar gael o bob rhan o Gymru yn dangos cynnydd cyffredinol yng nghanran yr Asesiadau a arweiniodd at Adolygiad. Roedd gwybodaeth a gafwyd gan y 22 awdurdod lleol yn nodi bod addasrwydd y llety a gynigiwyd, mewn llawer o awdurdodau lleol ledled Cymru, yn parhau i fod yn un o'r ffactorau allweddol mewn penderfyniadau Asesu sy'n cael eu gwrthdroi ar ôl Adolygiad.

Nododd adroddiad gan Tai Pawb a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2023, a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru i sicrhau bod lleisiau a phrofiadau pobl â nodweddion gwarchodedig yn cael eu cynnwys yn adolygiad Llywodraeth Cymru o gyfreithiau tai a digartrefedd, themâu allweddol a brofir gan bobl anabl, Sipsiwn a Theithwyr, pobl hŷn, ceiswyr lloches a ffoaduriaid, cymunedau du a lleiafrifoedd ethnig a'r gymuned LGBTQ+. Canfuwyd, ar draws pob grŵp, nad oedd y system neu staff yr awdurdod lleol yn gwrando nac yn deall, a bod angen eiriolaeth i ddatrys y sefyllfa'n gadarnhaol, yn ogystal â diffyg hyblygrwydd yn y gyfraith a/neu wasanaethau i reoli arlliwiau a nodwyd gyda rhai o'r amgylchiadau.

Cydnabyddir bod cynnydd wedi bod yn nifer y bobl sy'n cyflwyno eu hunain yn ddigartref a bod cyfyngiadau ar y tai sydd ar gael, sy'n golygu efallai na fydd llety addas ar gael bob amser. Yn aml mae gan addasrwydd llety nifer o ffactorau i'w hystyried. Bydd effaith y ffactorau hyn yn benodol i amgylchiadau a nodweddion unigol pob defnyddiwr gwasanaeth. Mae'n hollbwysig bod cydraddoldeb a hawliau dynol pob defnyddiwr gwasanaeth yn cael eu hystyried yn benodol pan fydd swyddogion yn gwneud penderfyniadau digartrefedd. Dylid dogfennu hyn i gefnogi'r rhesymeg dros wneud penderfyniadau ac i gynorthwyo'r Swyddog Adolygu os gofynnir am adolygiad.

## Cydweithredu

Tynnwyd cyllid ar gyfer Rhwydwaith Cymorth Tai Cymru Gyfan yn ôl, a effeithiodd ar allu awdurdodau lleol i gydweithio.  Er bod hyn yn siomedig, cydnabyddir bod pwysau ariannol yn effeithio ar ddarpariaeth llawer o wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.  O gofio bod cyllid ar gyfer Rhwydwaith Cymorth Tai Cymru Gyfan wedi'i dynnu'n ôl, ni wnaed unrhyw gynnydd o ran safoni dogfennaeth Adolygu ym mhob un o'r 22 awdurdod lleol.  Byddai safoni yn cyfrannu rywfaint at sicrhau bod defnyddwyr gwasanaeth yn cael gwasanaeth Adolygu teg a chyfiawn, ni waeth ble maent yn byw yng Nghymru.

Roedd tystiolaeth o gydymffurfio a gyflwynwyd gan yr Awdurdodau yr ymchwiliwyd iddynt yn dangos cydweithio pellach gyda Shelter Cymru.  Roedd gwybodaeth gan nifer o'r Awdurdodau na ymchwiliwyd iddynt yn nodi cydweithio â Daliwch Sylw, sef prosiect a ariennir gan Lywodraeth Cymru i wella gwasanaethau tai a digartrefedd ledled Cymru. Dywedodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf wrthym ei fod yn gweithio gyda'r Gwasanaeth Gwella Argyfwng i wella'r modd y mae'n darparu gwasanaethau.  Dywedodd Llywodraeth Cymru fod Rheolwyr perthynas a benodwyd i bob awdurdod lleol yn ystod y pandemig yn parhau i weithio â'r awdurdodau lleol i gryfhau gweithio mewn partneriaeth a gwella darparu gwasanaethau.  Mae hyn i'w groesawu.

Mae gan nifer o awdurdodau lleol, ond nid pob un, fynediad at adnoddau hyfforddi a gwybodaeth werthfawr trwy aelodaeth o Tai Pawb.  Caiff pob awdurdod lleol yng Nghymru eu hannog i sicrhau bod ganddynt fynediad at wybodaeth a hyfforddiant priodol, fel yr hyn a ddarperir drwy aelodaeth Tai Pawb.

Nododd gwybodaeth a gafwyd gan awdurdodau lleol yng Nghymru eu bod yn gweithio gyda sefydliadau trydydd sector megis Shelter Cymru, Tai Pawb, Prosiect Crisis Falling Out, Daliwch Sylw a Cymorth Cymru.   Nododd awdurdodau lleol fod gwneud hynny wedi adnabod rhai meysydd i'w gwella a bod gweithio'n rhagweithiol gydag asiantaethau partner wedi arwain at gymhwyso synnwyr cyffredin ac ymagwedd sy'n canolbwyntio ar y cwsmer at Asesu.  Anogir yr awdurdodau lleol hynny nad ydynt yn ymgysylltu â sefydliadau trydydd sector ar hyn o bryd i ystyried gwneud hynny.  Mae sefydliadau o'r fath yn cynnig help a chymorth ac maent yn ffynhonnell amhrisiadwy o wybodaeth sy'n ymwneud â digartrefedd a'r problemau a wynebir gan y rhai sy'n wynebu digartrefedd.

## Adolygu a diweddaru Deddf Tai Cymru a'r Cod Canllawiau cysylltiedig

Rhagwelwyd y byddai adolygiad a diweddariad o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 a'r Cod Canllawiau cysylltiedig yn arwain at well deddfwriaeth a chanllawiau. Rhoddodd Llywodraeth Cymru wybod i ni ei bod wedi ymgorffori canfyddiadau'r Adolygiad Digartrefedd yn ei ffordd o feddwl wrth gyflawni'r Cynllun Gweithredu Rhoi Diwedd Ar Ddigartrefedd ac wrth ddiwygio gwasanaethau digartrefedd.

Daeth Rheoliadau Digartrefedd (Angen Blaenoriaethol a Bwriadoldeb) (Cymru) 2022 i rym ar 24 Hydref 2022. Effaith hyn oedd ychwanegu 11eg categori angen blaenoriaethol at y 10 categori blaenorol a nodwyd yn adran 70 o Ddeddf Tai Cymru. 'Digartref ar y stryd' yw'r 11eg categori.

Yn fwy diweddar, dywedodd Llywodraeth Cymru fod y canfyddiadau cychwynnol a'r argymhellion o'r adroddiad Adolygiad Digartrefedd yn parhau i lywio'r gwaith parhaus mewn perthynas â darparu gwasanaethau digartrefedd gan gynnwys yn ei **[Rhoi diwedd ar ddigartrefedd: cynllun gweithredu lefel uchel 2021 i 2026]** diwygiedig a gyhoeddwyd ar 23 Awst 2023. Dywedodd fod hwn yn nodi'r cynnydd hyd yma a'r camau sy'n cael eu cymryd i sicrhau bod digartrefedd yng Nghymru yn brin, yn fyr ac yn ddi-ail. Eglurodd Llywodraeth Cymru ei bod wedi cyhoeddi **[Papur Gwyn ar Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd yng Nghymru]** sy'n nodi ystod o gynigion ar gyfer newidiadau i bolisi a'r gyfraith, i roi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru. Dywedodd Llywodraeth Cymru fod hyn yn dangos ei hymrwymiad i adolygu Deddf Tai (Cymru) 2014 a'i bod yn hyderus bod y Papur Gwyn yn cyd-fynd yn dda â chanfyddiadau'r adroddiad Adolygiad Digartrefedd a oedd yn gosod y fframwaith y bydd awdurdodau lleol yn ei ddefnyddio i ddarparu gwasanaethau digartrefedd.

## Rheoleiddiwr Tai

Un o'n hawgrymiadau ar gyfer gwelliant systemig a chysondeb mewn gwasanaethau digartrefedd ledled Cymru oedd y dylai Llywodraeth Cymru ystyried creu rôl rheoleiddiwr Tai/Digartrefedd.  Mewn ymateb i'n hadroddiad, dywedodd Llywodraeth Cymru wrthym ym mis Medi 2022 nad oedd yn ystyried penodi Rheoleiddiwr Tai gan ei bod yn credu y byddai cam o'r fath yn peryglu cynyddu cymhlethdodau llywodraethu a chostau gweinyddol ac na fyddai o reidrwydd yn gwella cyflenwad tai na'r ffactorau sy'n achosi digartrefedd yn yr argyfwng presennol.

Fodd bynnag, gan fod darparwyr tai cymdeithasol yng Nghymru bellach yn wynebu mwy o risgiau a heriau yn gyffredinol, mae'n ymddangos bod yr achos dros greu rheoleiddiwr Tai/Digartrefedd i ddarparu goruchwyliaeth strategol a sicrwydd i denantiaid a'r rhai sydd ag angen tai, yn parhau.

# Sylwadau ar yr adroddiad drafft

Cafodd yr Awdurdodau yr ymchwiliwyd iddynt gyfle i weld a rhoi sylwadau ar fersiwn drafft yr adroddiad hwn cyn cyhoeddi'r fersiwn terfynol.

Dywedodd **Cyngor Caerdydd** ei fod yn parhau i fod yn ymrwymedig i fynd i'r afael â'r materion a amlygwyd yn yr adroddiad Adolygiad Digartrefedd ac y bydd yn gwasanaethu fel conglfaen ar gyfer ei ymdrechion parhaus i wella'r gwasanaeth a darparu gwell cymorth i'r unigolion a'r teuluoedd sy'n wynebu digartrefedd yn ei gymuned. Dywedodd **Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam** fod gweithredu'r argymhellion a wnaed yn yr adroddiad Adolygiad Digartrefedd wedi cael effaith gadarnhaol ar ei staff ac wedi gwella'r gwasanaeth a ddarperir i'r rhai sy'n cysylltu â'i Wasanaeth Opsiynau Tai am gymorth.  Cadarnhaodd **Cyngor Sir Caerfyrddin** nad oedd ganddo unrhyw sylwadau i'w gwneud mewn ymateb i'r adroddiad drafft a rannwyd.

# Casgliadau

Mae digartrefedd yn effeithio ar bob aelod o gymdeithas mewn rhyw ffordd; fodd bynnag, mae'r effaith fwyaf ar y bobl, a'u teuluoedd, sy'n wynebu digartrefedd. Mae llawer o bobl ddigartref yn agored i niwed oherwydd eu hoedran, hil, rhywioldeb neu anawsterau iechyd corfforol neu feddyliol. Gall digartrefedd waethygu'r gwendidau hynny ymhellach a chyfyngu ar eu gallu i gael mynediad at y gefnogaeth a'r cymorth sydd ar gael iddynt.

Cydymffurfiodd yr Awdurdodau yr ymchwiliwyd iddynt â'r argymhellion a wnaed yn yr adroddiad a diolchwn iddynt am eu cydweithrediad yn ystod yr ymchwiliad ac wrth dderbyn a chydymffurfio â'r argymhellion. Bydd y camau a gymerodd yr Awdurdodau yr ymchwiliwyd iddynt wedi gwella'r ddarpariaeth o wasanaethau digartrefedd yn ardaloedd yr Awdurdodau yr ymchwiliwyd iddynt a hygyrchedd a chyfathrebu â defnyddwyr gwasanaethau digartrefedd.

Bydd y camau a gymerwyd hefyd wedi sicrhau bod staff perthnasol yn yr Awdurdodau yr ymchwiliwyd iddynt wedi derbyn hyfforddiant mewn cydraddoldeb a hawliau dynol, sy'n ganolog i wneud penderfyniadau digartrefedd.

Mae llawer o awdurdodau lleol na ymchwiliwyd iddynt hefyd wedi cymryd camau i wella hygyrchedd a gwella cyfathrebu â defnyddwyr gwasanaethau; hyn rwy'n ei groesawu. Mae'n amlwg bod llawer o awdurdodau lleol yn cydweithio â sefydliadau trydydd sector, gan elwa felly ar wybodaeth a sgiliau arbenigol y sefydliadau hynny a'u pobl.

Mae'n gadarnhaol bod Rheolwyr Perthynas Llywodraeth Cymru a benodwyd i bob awdurdod lleol yn ystod y pandemig yn parhau i weithio ag awdurdodau lleol i gryfhau gweithio mewn partneriaeth.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi ymgorffori canfyddiadau'r Adolygiad Digartrefedd yn ei ffordd o feddwl wrth gyflawni'r Cynllun Gweithredu Rhoi Diwedd Ar Ddigartrefedd ac wrth ddiwygio gwasanaethau digartrefedd.

Wedi dweud hynny, o'r diweddariadau a gafwyd eleni gan yr 19 o Awdurdodau na ymchwiliwyd iddynt, mae'n amlwg, ac yn siomedig i raddau, nad yw llawer o'r 19 o Awdurdodau yr ymchwiliwyd iddynt wedi ystyried eto gwelliannau posibl i wasanaethau yng ngoleuni canfyddiadau'r adroddiad. Rydym yn cydnabod bod gwasanaethau digartrefedd ledled Cymru yn parhau i weithredu dan bwysau sylweddol gyda galw digynsail a pharhaus ar wasanaethau tai a digartrefedd.

Fodd bynnag, roedd cyhoeddi **Adolygiad Digartrefedd: drws agored i newid cadarnhaol** ar ôl y pandemig yn gyfle i'r Awdurdodau na ymchwiliwyd iddynt ystyried canfyddiadau'r adroddiad a myfyrio ar eu darpariaeth gwasanaeth digartrefedd eu hunain. Roedd hefyd yn gyfle i fwrw ymlaen ag unrhyw bwyntiau dysgu a fyddai'n gwella eu gwasanaethau digartrefedd eu hunain.

I grynhoi, mae cyfleoedd o hyd i lawer o awdurdodau lleol wella eu darpariaeth o wasanaethau digartrefedd yng Nghymru yn y meysydd canlynol:

- Hyfforddiant cydraddoldeb a hawliau dynol i'r holl unigolion sy'n gwneud penderfyniadau mewn perthynas â gwasanaethau digartrefedd a swyddogion Adolygu.
- Ystyriaeth agored o gydraddoldeb a hawliau dynol wrth wneud penderfyniadau.
- Grymuso swyddogion i nodi camgymeriadau a chywiro penderfyniadau heb fod angen Adolygiad, lle bo'n briodol.
- Cydweithio rhwng awdurdodau lleol i ysgogi cysondeb ledled Cymru.
- Ymgysylltu a chydweithio rhwng awdurdodau lleol â rhanddeiliaid a phartneriaid.

Rydym yn cwblhau gwaith dilynol ar ein liwt ein hunain i weinyddu gwasanaethau digartrefedd drwy gyhoeddi'r adroddiad dilynol hwn.

Mae'n falch gennym nodi'r sylwadau gan Gyngor Caerdydd a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam am yr effaith a gafodd yr adroddiad Adolygiad Digartrefedd ar ei wasanaethau digartrefedd a'i staff.

Rydym yn croesawu ymhellach y datblygiadau y mae Llywodraeth Cymru yn gwneud cynnydd arnynt i roi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru.  Rydym yn annog pob un o'r 22 awdurdod lleol a Llywodraeth Cymru i barhau i ymdrechu i wella, ac i sbarduno gwelliant gan ganolbwyntio ar y pwyntiau a amlinellir uchod, i sicrhau bod y rhai sy'n wynebu digartrefedd yn cael gwasanaeth teg a hygyrch pan fyddant, yn aml, yn teimlo'n fwy diamddiffyn nag erioed ac angen cymorth a chefnogaeth.

Gan fod yr adnoddau y gallwn eu neilltuo i ymchwiliadau ar ei Liwt ei Hun yn gyfyngedig, gwnaethom ganolbwyntio ein hymchwiliad ar yr Awdurdodau yr ymchwiliwyd iddynt mewn ffordd gymesur.  Rydym wedi mabwysiadu'r un dull yn ein hymchwiliad ar ei Liwt ei Hun 'sector' i weinyddu Asesiadau o Anghenion Gofalwyr sy'n parhau.  Rydym bob amser yn ymwybodol o'r pwysau y gall ymchwiliad ar ei Liwt ei Hun ei gael ar gyrff cyhoeddus pan fo gwasanaethau dan bwysau.  Fodd bynnag, mae profiad yr ymchwiliad hwn yn awgrymu nad yw cyrff cyhoeddus na ymchwiliwyd iddynt yn uniongyrchol wedi manteisio ar y cyfle i ddysgu o'n canfyddiadau a'n hargymhellion. Mae hwn yn fater y gallai fod angen ei ystyried ymhellach, i sicrhau y gellir cyflawni arfer da a gwelliant ar draws sectorau cyfan yn hytrach na chael ei gyfyngu i nifer fach o sefydliadau a ddewisir i'w cynnwys mewn ymchwiliad ar ei Liwt ei Hun

.

Ombwdsmon
Ombudsman
Cymru • Wales

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

1 Ffordd yr Hen Gae

Pencoed

CF35 5LJ

Ffôn: 0300 790 0203
E-bost: ask@ombudsman.wales
Dilynwch ni ar X: @OmbudsmanWales